"Working, Praying, Sharing and Learning Together"

"Gweithio, Gweddio, Rhannu a Dysgu gyda'n gilydd"

Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair
Heol Gatholig, Brynmawr NP23 4EF
Ffôn: 01495 310596

E-bost: stmarysrc@blaenau-gwent.gov.uk

Gwefan: www.stmarysrcbrynmawr.co.uk

Teitl:	**Dirprwy Bennaeth**
Lleoliad:	**Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair**
Cyfarwyddiaeth:	**Addysg**
Cyfeirnod/Rhif Swydd:	**BG09849**
Cyflog:	**Ystod Cyflog Arweinyddiaeth L6 – L10 (£54,316-£59,990 y flwyddyn)**
Oriau:	**Amser llawn**
Nifer ar y gofrestr:	**233**

Penodiad ar gyfer 1 Ionawr 2025 (neu cyn gynted â phosibl wedi hynny).

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn dymuno penodi Dirprwy Bennaeth blaengar sy'n ysbrydoli. Bydd y deiliad swydd yn ymarferydd eithriadol sy'n ymroddedig i godi safonau ar gyfer pob dysgwr. Bydd yn sicrhau fod yr addysgu o'r safon uchaf er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus ein hysgol wrth ddarparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer pob plentyn.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu Plwyf Santes Fair Abertyleri a Brynmawr a darparwn addysg i tua 240 o ddisgyblion 3 i 11 oed o'r ardal leol. Mae gennym hefyd gysylltiadau cryf a chydweithiwn gyda phlwyfi ac ysgolion eraill ar draws Blaenau'r Cymoedd. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nhref Brynmawr ac yn cael ei gwasanaethu gan rwydwaith ffyrdd yr A465 sy'n sicrhau bod modd teithio i'r ardal o Gasnewydd, Caerdydd a rhanbarth De-ddwyrain Cymru yn ehangach.

Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn ysgol groesawgar, ofalgar lle mae staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i greu cymuned ddysgu gefnogol, gan rannu gweledigaeth yr ysgol i 'weithio, gweddïo, rhannu a dysgu gyda'i gilydd'. Mae arweinwyr a staff yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach, i greu amgylchedd dysgu llwyddiannus lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cynnwys (ESTYN Mehefin 2024).

Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn ysgol groesawgar, ofalgar lle mae staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i greu cymuned ddysgu gefnogol, gan rannu gweledigaeth yr ysgol i 'weithio, gweddïo, rhannu a dysgu gyda'i gilydd'. Mae arweinwyr a staff yn datblygu perthnasoedd

cadarnhaol gyda disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach, i greu amgylchedd dysgu llwyddiannus lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cynnwys (ESTYN Mehefin 2024).

Mae'r llywodraethwyr yn ymroddedig i benodi Dirprwy Bennaeth fydd:

- Yn Gatholig mewn gair a gweithred gyda gweledigaeth glir o ragoriaeth o fewn addysg gynradd Gatholig a ffydd Gatholig bersonol gryf fydd yn ysbrydoli staff, plant a rhieni.
- Gyda'r gallu i arddangos nodweddion arweinyddiaeth cryf yn cynnwys egni, gallu i ysbrydoli a chydnerthedd gyda phresenoldeb personol cryf.
- Gyda'r gallu i feithrin perthynas o barch at ei gilydd gyda disgyblion, teuluoedd, staff a llywodraethwyr.
- Gyda'r weledigaeth ar gyfer datblygiadau pellach i sicrhau perfformiad a safonau eithriadol uchel.
- Hanes y gellir ei ddangos o lwyddiant fel arweinydd ysgol llwyddiannus gyda ffocws clir ar addysgu a dysgu cyffrous ac arloesol.
- Yn hyrwyddo gwerthoedd sy'n cynnal ysgol ddisgybledig a threfnus gyda moeseg Gatholig ofalgar.
- Gyda'r gallu i adeiladu ar y cysylltiadau rhagorol a sefydlwyd gydag ysgolion cynradd lleol, teuluoedd, y plwyf a'r gymuned yn ehangach.

Bydd llywodraethwyr yn cefnogi'r ymgeisydd llwyddiannus ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, gan felly greu diwylliant o ddysgu a datblygu effeithlon ledled yr ysgol a'i chymuned ehangach.

Caiff ymweliadau i'r ysgol eu croesawu'n gynnes a gellir eu trefnu drwy gysylltu â Holly Davis, Gweinyddydd yr Ysgol ar 01495 310956 neu e-bost: holly.davis@blaenau-gewnt.gov.uk

Dyddiad cau:	**Dydd Iau 7 Tachwedd 2024, 12:00 Canol dydd.**
Llunio'r rhestr fer:	**Dydd Mercher 13 Tachwedd 2024.**
Arsylwi Gwers:	**I'w gynnal yr wythnos yn dechrau 18 Tachwedd 2024 yn ysgol yr Ymgeiswyr eu hunain.**
Cyfweliadau:	**Dydd Mawrth 26 Tachwedd 2024.**

Rhaid cyflwyno ceisiadau ar Ffurflen Gais Uwch Arweinwyr y Gwasanaeth Addysg Gatholig, a'i chyflwyno i sylw Cadeirydd y Llywodraethwyr yn: recruit.bgcbc@blaenau-gwent.gov.uk

Gellir lawrlwytho Ffurflen Gais, Nodiadau i Ymgeiswyr, Monitro Recriwtio ac Adsefydlu Troseddwyr o www.catholiceducation.org.uk a dylid ei hanfon gyda'r ffurflen gais.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus lofnodi contract cyflogaeth y Gwasanaeth Addysg Catholig. Bydd angen tystlythyrau ar gyfer pob ymgeisydd ar y rhestr fer cyn y cyfweliadau.

Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn ymroddedig i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac mae'n disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymroddiad hwn. **Cynhelir camau gwirio cyn-cyflogi trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i'r deiliad swydd lenwi cais am Ddatgelu Cofnodion Troseddol.**

Mae angen cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg dan gategori Athro/Athrawes Ysgol ar gyfer y swydd hon, a bydd angen i'r cofrestru fod yn ei le cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i

gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ar y wefan ganlynol: **http://www.cga.cymru/** neu drwy ffonio 02920 460099.